


BRACE, WILLIAM (1865 - 1947), arweinydd llafur ac aelod seneddol



Enw: William Brace
Dyddiad geni: 1865
Dyddiad marw: 1947
Priod: Nellie Brace (née Humphreys)
Plentyn: Ivor Llewellyn Brace
Rhiant: Ann Brace
Rhiant: Thomas Brace
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arweinydd llafur ac aelod seneddol
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd yn Rhisga, sir Fynwy, 23 Medi 1865, yn fab i Thomas ac Ann Brace. Addysgwyd yn ysgol elfennol Rhisga. Pan yn 12 mlwydd oed cychwynnodd ar ei yrfa fel glöwr yng nglofa Rhisga, a chyn hir dechreuodd gymryd diddordeb ym mhroblemau llafur.

Yn 1890 priododd Nellie, merch William a Harriet Humphreys o Gwmcadarn, sir Fynwy. Yn yr un flwyddyn apwyntiwyd ef yn gynrychiolydd glowyr adran leol Undeb Glowyr Prydain Fawr. Tua'r adeg hon un o bynciau mwyaf llosg y diwydiant glo yn Ne Cymru oedd y ddaol ynglŷn â'r drefn o dalu'r glowyr yn ôl y *siding scale*. Arweinid y blaid a ffafriai'r egwyddor honno o dalu gan **William Abraham** (Mabon), a daeth Brace yn arweinydd y blaid a wrthwynebai. Daeth eu hymdrechion â'r ddau wr hyn i wrthdaro swyddogol a phersonol. Cyhuddwyd Brace gan **Abraham** o enllib ac enillodd **Abraham** yr achos. Ar ddiwedd streic y glowyr yn 1898, fodd bynnag, ffurfiwyd Undeb Glowyr De Cymru gydag **Abraham** yn llywydd a Brace yn is-lywydd y pwyllgor gwaith.

Yn 1899 bu Brace, **Abraham**, ac un arall yng nghynhadledd flynyddol Undeb Glowyr Prydain Fawr gyda chais am uno'r undeb lleol a'r mudiad cenedlaethol. Llwyddasant yn eu cais. Yn 1901 gofynnwyd iddo wasanaethu ar Gomisiwn Brenhinol i ymchwilio i adnoddau glo Prydain Fawr. Bum mlynedd ar ôl hyn etholwyd ef yn aelod seneddol llafur dros Dde Morgannwg. Yn yr etholiad curodd y **Cynol Wyndham** **Quin**, yn **ddiweddarach** **Iarll Dunraven**. Cynrychiolodd yr etholaeth hyd 1918. Drwy'r cyfnod hwn parhaodd ei gysylltiad ag Undeb Glowyr De Cymru, ac yn 1912 penodwyd ef yn llywydd yr Undeb. Erbyn hyn, fodd bynnag, codasai peth gwrthwynebiad iddo o blith y glowyr am na chyfrifid ef yn ddigon radicalaidd.

Yn 1915 penodwyd ef yn Is-ygrifennydd y Swyddfa Gartref yn llywodraeth unedig cyfnod y rhyfel, a'r flwyddyn ddilynol apwyntiwyd ef yn aelod o'r Cyngor Cyfrin. Parhaodd yn aelod o'r llywodraeth hyd nes i'r Blaid Lafur wrthgilio yn 1918. O 1918 hyd 1920 bu'n aelod seneddol dros adran Abertyleri o sir Fynwy. Derbyniodd swydd yn 1920 fel Prif Gynghorwr Adran Glofeydd y llywodraeth, swydd lawn amser a arweiniodd i'w ymddiswyddiad fel aelod seneddol. Yn 1922 gofynnwyd iddo wasanaethu yn un o bedwar aelod ar Gomisiwn Brenhinol a ffurfiwyd gan lywodraeth De Affrica i wneuthur ymchwiliad i broblemau economaidd ar ôl anesmwythdra ymhlith y glowyr.

Ymddiswyddodd yn 1927 a bu farw 12 Hydref 1947.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

Ness Edwards, *History of the South Wales Miners Federation* (Llundain 1938)

L. Twiston Davies, *Men of Monmouthshire* (Caerdydd 1933), cyf. II

E. W. Evans, 'A Hist. of Industrial Relations in the South Wales coalfield to 1912' (traethawd gradd Ph.D., Prifysgol Cymru, 1955)

E. W. Evans, 'William Abraham, 1842-1922' (traethawd gradd M.A., Prifysgol Cymru, 1953)

Brinley Evans, 'A Hist. of the Trade Disputes ... in the South Wales Coal Trade ...' (traethawd gradd M.A., Prifysgol Cymru, 1944)

Who was who?, 1941-50

Western Mail, 14 Hydref 1947

The Times, 14 Hydref 1947

Who's who in Wales, 1920

Eric Wyn Evans, *Mabon, William Abraham, 1842-1922, a study in trade union leadership, etc.* (Caerdydd 1959)

Darllen Pellach

Archifau LIGC: General Election 1906 Wales and Monmouthshire. A Souvenir containing photographs, biographical sketches etc., of all the Welsh MP's: William Brace

Erthygl Wicipedia: William Brace

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 306324726

Wikidata: Q8005819

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Erannu

Arddull APA

x

Griffiths, G. M., (1970). BRACE, WILLIAM (1865 - 1947), arweinydd llafur ac aelod seneddol. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-BRAC-WIL-1865>

Yrfaidd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Wedi'i gynnal gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government